# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Pum Heol

Dyddiad yr arolygiad: 23/02/2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r pennaeth a staff yn deall eu rolau yn glir. Maent yn gefnogol iawn i'w gilydd, ac yn gofalu'n dda am y disgyblion mewn amgylchedd cartrefol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron bob un yn ymddwyn yn dda ac mae llawer yn hoffi dysgu gan ddyfalbarhau a chwilio am atebion drwy defnyddio gwahanol ffyrdd pan fyddant yn cael eu gwaith yn anodd.

Mae gwerthoedd yr ysgol yn glir ac yn canolbwyntio'n briodol ar wella dysgu a lles disgyblion. Mae athrawon a chynorthwywyr yn cefnogi ac addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae athrawon wedi cynllunio cwricwlwm sy'n ddiddorol ac yn seiliedig ar themâu ysgol gyfan ac mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddweud beth hoffent ei ddysgu o fewn bob thema. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau priodol i ddisgyblion sy'n datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u cymhwysedd digidol yn drefnus dros gyfnod. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn y medrau hyn. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu darnau etynedig nac iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd mewn agweddau eraill o'r cwricwlwm, ac nid yw'r ffordd mae disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn ddigon taclus.

Mae grwpiau llais y disgybl wedi eu sefydlu ac yn dechrau dylanwadu ar waith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol wedi prynu offer a dylunio gwisg chwaraeon newydd ar gyfer yr ysgol.

Mae arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda yn yr ysgol a'r hyn sydd angen ei wella ac mae ganddynt gynlluniau priodol i wneud gwelliannau.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod diwyg cyflwyniad gwaith disgyblion yn drefnus a thaclus

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyson a phriodol i ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o gyd-destunau

A3 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i gymhwyso'u medrau rhifedd mewn ystod o gyd-destunau 'go iawn' ar draws y meysydd dysgu a phrofiad

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2026